**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at County Hall, Usk - Remote Attendance on Dydd Mercher, 20fed Hydref, 2021 at 10.00 am**

**YN BRESENNOL:**

**CYNRYCHIOLWYR CYNGHORWYR SIROL:**

County Councillor P. Pavia (Cadeirydd)
County Councillor T.Thomas, L.Brown and M. Powell

**CYNRYCHIOLWYR FFYDD**

Mrs S Cave
Mrs S Gooding
Mr A Szwagrzak
Lt. N. Prior
Mr. J. Greaves
Mrs B. Quinlan

**CYNRYCHIOLWYR ATHRAWON**

Mrs S. Hamar
Mr. N. Jenkins

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Sharon Randall-Smith | Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad |
| Wendy Barnard | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Georgie Bevan | Principal Professional Learning Lead (STEM and Wider Curriculum) |
| Hayley Jones | Curriculum Partner (SACs and RVE) |

**APOLOGIES:**

Dim

1. **Penodi Is-gadeirydd**

Penodwyd Mr. A Szwagrzak fel Is-gadeirydd.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelodau o’r cyhoedd yn bresennol

3. **Adroddiad Aelodaeth**

Adroddiad Aelodaeth

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at County Hall, Usk - Remote Attendance on Dydd Mercher, 20fed Hydref, 2021 at 10.00 am**

| | |
|---|---|
| Cynrychiolwyr y Cyngor Sir | 1 lle gwag Ceidwadwyr<br>1 lle gwag Democratiaid Rhyddfrydol |
| Cynrychiolwyr Ffydd | 1 lle gwag yr Eglwys yng Nghymru |
| | 1 lle gwag y ffydd Fwdhaidd |
| | 1 lle gwag y ffydd Hindŵaidd |
| | 1 lle gwag y ffydd Iddewig |
| | 1 lle gwag y ffydd Fwslimaidd |
| | 1 lle gwag y ffydd Sikhaidd |
| Cynrychiolwyr athrawon | 4 lle gwag athrawon |
| Lleoedd gwag cyfetholedig | 2 le gwag |
| Cyfanswm | 14 o leoedd gwag |

Mynegwyd pryderon ynghylch nifer y lleoedd gwag ar y CYSAG, a'r diffyg cynrychiolaeth o wahanol grwpiau ffydd.

i. Cytunodd y Cadeirydd fynd ar drywydd lleoedd gwag y Cyngor Sir.
ii. Mae Cyfarwyddwr Esgobaethol dros dro yr Eglwys yng Nghymru yn ymddeol. Cytunodd Mrs. Quinlan fynd ar drywydd y lle gwag a ddeilliodd o hynny.
iii. Bydd y Cadeirydd yn gweithio gyda Hayley Jones i gysylltu'n uniongyrchol gydag arweinwyr ffydd yn lleol a thu hwnt i Sir Fynwy er mwyn ceisio llenwi'r lleoedd gwag.
iv. Derbyniwyd cais gan Ddyneiddwyr Cymru yn ymgeisio am aelodaeth o Bwyllgor A. Gohiriwyd y cais, a bydd y Cadeirydd yn anfon ymateb dros dro tra gwneir ymdrechion i lenwi'r lleoedd gwag ac yn amodol ar gyngor ar y broses i ychwanegu at Bwyllgor A. Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu mai penderfyniad y Cyngor fyddai hwn.
v. Dylai CYSAG godi ei broffil a'i waith mewn ysgolion. Mae'r GCA yn gweithio ar hyn.
vi. O dan y cylch gorchwyl penodir cynrychiolwyr athrawon gan sefydliadau proffesiynol. Cwestiynwyd ai hon oedd y ffordd fwyaf effeithiol o benodi cynrychiolwyr athrawon ac a ellid newid y cylch gorchwyl fel y gellir gwneud enwebiadau drwy Benaethiaid ysgol gydag o bosib un lle dynodedig i gynrychioli sefydliadau proffesiynol.
vii. Cynigiodd Mrs Cave gysylltuy â'r Cyngor Rhyng-ffydd ynghylch y lleoedd gwag ffydd.

## 4. Cadarnhau Adroddiad Blynyddol 2020/21

The Cadarnhawyd yr adroddiad drafft fel y'i cyflwynwyd yn amodol ar y diwygiadau canlynol:

i. Y Parchedig Greaves i gynrychioli Eglwys y Bedyddwyr nid Cyngor yr Eglwysi Rhyddion.
.
ii. Roedd angen gwelliant i wneud yn glir bod y llythyr oddi wrth y Gweinidog, a dderbyniwyd ym mis Mai 2018,yn rhoi canllawiau i aelodau lleol ar ddisgresiwn ynghylch cynrychiolwyr o sefydliadau sy'n cynrychioli credoau anghrefyddol fel Dyneiddwyr i eistedd ar Bwyllgor A.draft report was confirmed as presented subject to the following amendments:

i. Revd Greaves to represent the Baptist Church <u>not</u> the Free Church Council.
ii. An amendment was required to make clear that the letter from the Minister, received in May 2018, provided guidance to local authorities on discretion concerning representatives from organisations representing non–religious beliefs such as Humanists to sit on Committee A.

## 5. Diweddariad Cwricwlwm

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at County Hall, Usk - Remote Attendance on Dydd Mercher, 20fed Hydref, 2021 at 10.00 am**

Rhoddodd Hayley Jones Ymgynghorydd RVE ddiweddariad ar yr addasiadau asesu a gyhoeddwyd gan CBAC. Nodwyd bod yr addasiadau TGAU yr un peth â'r llynedd. Ar gyfer TAG Safon Uwch, bu rhywfaint o symleiddio o ran amser/cynnwys addysgu oherwydd y pwysau sy'n deillio o Covid 19 ochr yn ochr â chadw cydbwysedd fel y bydd asesiad yn galluogi mynediad i addysg bellach.

Mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi rhai cynlluniau i baratoi pe bai lefelau Covid yn cynyddu. Mae'r Gweinidog Addysg hefyd wedi ysgrifennu datganiad y bydd cymwysterau disgyblion yn cael eu dyfarnu drwy Radd a Benderfynir gan y Ganolfan (CDG). Dywedwyd bod angen bod yn ofalus gan fod llawer o blant i mewn ac allan o'r ysgol ac y bydd arholiadau'n anodd eleni. Croesawyd y newidiadau.

6. **Diweddariadau Cwricwlwm Cymru**

Mae modiwlau ar gyfer gwahanol gyfnodau cynllunio'r cwricwlwm yn cael eu cyflwyno'n genedlaethol i gefnogi uwch arweinwyr. Cafodd y sesiynau eu recordio ac roeddent ar gael er mwyn i'r rhai nad oeddent yn gallu bod yn bresennol eu gweld. Mae'r ffocws nawr ar gyflwyno rhaglen ddatblygu Cwricwlwm i Gymru ar gyfer arweinyddiaeth ganol sy'n rhoi'r cyfle i arbenigo mewn Meysydd Profiad Dysgu.

Mae presenoldeb wedi bod yn isel iawn oherwydd yr amgylchiadau dan bwysau a phroblemau rhyddhau staff i fynychu. Bu dull hyblyg o ran pryd a sut y darperir sesiynau i sicrhau mynediad i gynifer o staff â phosibl. Cydnabuwyd bod dibyniaeth ar ewyllys da staff sy'n cael eu llethu.

Mae grŵp dylunio eilaidd ychwanegol wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â'r ffaith bod y ffocws wedi bod yn bennaf ar y sector cynradd; rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol yw'r cam nesaf.

Mae'r GCA wedi sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen ar wahanol agweddau ond mae argaeledd staff ysgol i fynychu yn parhau i fod yn anhawster.

Gofynnodd Aelod a ellid gohirio'r cyflwyniad oherwydd y pwysau. Cadarnhawyd bod cyflwyno Cwricwlwm i Gymru wedi ei ohirio am flwyddyn ar gyfer ysgolion uwchradd ond nid ar gyfer ysgolion cynradd. Holwyd pam fod gwahaniaeth rhwng uwchradd a chynradd. Mae'n bosibl ei fod oherwydd y pwysau sy'n ymwneud â Graddau a Benderfynir gan y Ganolfan. Bydd y Cadeirydd yn codi'r pwynt hwn mewn cyfarfod o Arweinwyr Cabinet gyda CLILC. Cadarnhawyd bod treialon o'r cwricwlwm yn cael eu cynnal eleni gyda B7 yn cymryd rhan mewn prosiect Dyniaethau Maes Dysgu a Phrofiad ar y cyd yn Ysgol Gyfun Brenin Harri'r VIII. Cytunwyd y byddai CYSAG yn ysgrifennu llythyr at y Gweinidog (gan sicrhau copi i Aelodau'r GCA ac aelodau CYSAG) i bwyso ar ymestyn y gohirio i'r cyfnod cynradd.

Gofynnodd Aelod sut mae'r canllawiau statudol RVE drafft yn dod yn eu blaen gan gofio bod CYSAG wedi argymell y dylai'r elfennau cyfreithiol fod yn statudol ond y dylai'r elfennau addysgu mwy goddrychol fod yn ganllawiau anstatudol. Mae'r fframwaith AG presennol yn ganllawiau anstatudol.

Mae'n rhaid cael maes llafur cytunedig CYSAG. Trafododd CCYSAGauC yn ddiweddar a allai hyn fod yn llai rhagnodol er mwyn caniatáu mwy o ddisgresiwn i benaethiaid. Roedd pryderon ynghylch peidio ag ymgynghori'n briodol â'r CYSAGau.

Eglurwyd bod gan CYSAGau ddiweddariadau tymhorol yn cynnwys e.e. RVE ac unrhyw newidiadau i addoli ar y cyd. Bydd y canllawiau RVE newydd yn cael effaith sylweddol ar y maes llafur cytunedig. Gall CYSAG fabwysiadu'r arweiniad fel ei faes llafur cytunedig, ei

ddiwygio neu wneud rhywbeth gwahanol. Ni ellir cymryd unrhyw gamau hyd nes y cyhoeddir y canllawiau terfynol. Disgwylir y diweddariad nesaf ym mis Rhagfyr 2021. Cytunwyd i ystyried cyfarfod ychwanegol os digwydd hyn.

**7. Cynhadledd Maes Llafur a Gytunwyd**

Cytunwyd i ailedrych ar yr eitem hon yng nghyfarfod mis Mawrth pan fyddai mwy o wybodaeth ar gael.

**8. Busnes CYSAG Cymru**

i. Derbyniwyd y nodiadau a'r cofnodion o gyfarfod CYSAG Cymru a gynhaliwyd ar 16/06/2021.
ii. Derbyniwyd Adroddiad a Datganiad Ariannol y Trysorydd.
iii. Cyfarfod CYSAG Cymru 23 Tachwedd 2021: Cytunwyd ar ein cynrychiolwyr fel y Cynghorydd L. Brown, Mrs S. Gooding a Mrs B. Quinlan

**9. Diwrnod Coffau'r Holocost**

Cytunodd Sharon Randall – Smith fynd ar drywydd trefniadau i goffáu Diwrnod Cofio'r Holocost.

**10. Unrhyw Fater Arall**

Hysbyswyd yr aelodau bod Cynhadledd Addysg Grefyddol Chweched Dosbarth Ysgol Gyfun Trefynwy ar 18 Tachwedd 2021 gyda gweithdai amrywiol. Mrs S. Cave a'r Parchg J. Greaves fydd yn cyfrannu at y digwyddiad.

**11. Cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd dilynol:**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Mai 2021 fel rhai cywir.

Cadarnhawyd cofnodion 23ain Mehefin 2021 yn amodol ar y newid teipograffyddol a ganlyn i eitem 2: Rhaid bod yn glir ar ofynion cyfreithiol yn enwedig gan mai Cristnogol yn bennaf yw'r traddodiadau crefyddol a'r prif grefyddau eraill. Mae defnyddio'r ymadrodd "Ystod o grefyddau" yn anghywir gan ei fod ond yn ymdrin â Christnogaeth a phrif grefyddau Cymru.

**12. Nodi mai dyddiad y cyfarfod nesaf yw 9 Mawrth 2022**

Nodi mai dyddiad y cyfarfod nesaf yw 9 Mawrth 2022

**The meeting ended at 11.12 am**